Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

**TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** 24 Mawrth, 2023

---

**PWNC**

Eitem 5: CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF 2023/24

---

**PENDERFYNIAD**

**Cymeradwyo:-**

1. **Cyllideb Refeniw 2023/24 fel y'i cyflwynir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.**
2. **Cyfraniadau ariannu sy'n cynnwys cyfraniadau partneriaid, cyfraniadau atodol awdurdodau lleol, a chyfraniadau llog partneriaid.**
3. **Cyllideb Gyfalaf ar gyfer y Cynllun Twf fel y'i cyflwynir yn Atodiad 2.**

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

1. Er mwyn gweithredu'n effeithiol o fewn y cyllid sydd ar gael, mae angen i gyllideb flynyddol gael ei chymeradwyo ar gyfer y Bwrdd Uchelgais.
2. Mae Atodiad 1 i'r adroddiad yn gosod y gyllideb arfaethedig yn ôl pennawd gwariant a'r ffrydiau ariannu cyfatebol ar gyfer y flwyddyn.
3. Mae Atodiad 2 yn gosod y gyllideb gyfalaf arfaethedig fesul prosiect a'r cyllid cyfalaf cyfatebol ar gyfer y Cynllun Twf o £240m.
4. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio i wario arian yn unol â'r gyllideb gymeradwy.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Cyflwynwyd Atodiadau 1 a 2 a'r wybodaeth o fewn yr adroddiad i'r Bwrdd Portffolio ar 3 Mawrth, 2023.

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

---

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

**TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** 24 Mawrth, 2023

---

**PWNC**

Eitem 6: CYD-BWYLLGOR CORFFOREDIG Y GOGLEDD (CBC) – YMESTYN SECONDIAD RHAN AMSER CYFARWYDDWR PORTFFOLIO, UCHELGAIS GOGLEDD CYMRU FEL PRIF WEITHREDWR DROS DRO Y CBC

---

**PENDERFYNIAD**

1. **Bod y Bwrdd Uchelgais yn cefnogi ymestyn y trefniant i ryddhau amser y Cyfarwyddwr Portffolio am ddau ddiwrnod yr wythnos tan 30 Medi, 2023 er mwyn parhau i ymgymryd â rôl y Prif Weithredwr ar sail dros dro.**
2. **Bod yr holl gyflogaeth a'r costau cysylltiedig yn parhau i gael eu hysgwyddo gan CBC y Gogledd.**

---

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

1. Mae’r trefniadau a argymhellir yn cyd-fynd gyda phenderfyniad mewn egwyddor y 6 Cyngor i drosglwyddo swyddogaethau Uchelgais Gogledd Cymru i’r Cyd-bwyllgor Corfforaethol.
2. Drwy gyflawni’r rôl Prif Weithredwr y CBC, bydd Cyfarwyddwr Portffolio yn cynorthwyo rhanbarth y Gogledd i ddatblygu CBC effeithiol, tra bod mewn sefyllfa unigryw i sicrhau bod buddiannau Uchelgais Gogledd Cymru yn cael eu diogelu yn y flwyddyn yma o drawsnewid.

---

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Datganodd Alwen Williams, Cyfarwyddwr Portffolio, fuddiant personol gan fod yr adroddiad yn ymwneud â’i secondiad fel Prif Weithredwr Dros Dro y Cyd-bwyllgor Corfforedig. Roedd o’r farn bod y buddiant yn rhagfarnu, a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

---

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

---

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru
North Wales Economic Ambition Board

**TAFLEN BENDERFYNIAD BWRDD UCHELGAIS ECONOMAIDD GOGLEDD CYMRU**

**DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** 24 Mawrth, 2023

**PWNC**

Eitem 7: YNNI LLEOL BLAENGAR – ACHOS BUSNES AMLINELLOL

**PENDERFYNIAD**

1. **Bod y Bwrdd yn cymeradwyo'r Achos Busnes Amlinellol ar gyfer y prosiect Ynni Lleol Blaengar ac, yn amodol ar gymeradwyaeth Llywodraethau Cymru a'r DU o'r broses sicrwydd yr ymgymerwyd â hi a bod y Swyddfa Rheoli Portffolio yn rhoi sylw i'r materion sydd wedi'u nodi yn yr adroddiad, bod cais Adran 7 yn cael ei wneud i baratoi Achos Busnes Llawn i'r Bwrdd ei ystyried yn dilyn cwblhau'r broses gaffael a'r broses ganiatâd.**
2. **Bod y Bwrdd yn dirprwyo i'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, gymeradwyaeth derfynol o'r fanyleb gaffael a'r meini prawf gwerth cymdeithasol cyn i ariannwr y prosiect ddechrau caffael.**
3. **Bod y Bwrdd yn nodi y bydd y trefniadau ariannol terfynol ar gyfer y prosiect yn cael eu cytuno ar y cam Achos Busnes Llawn ac yn awdurdodi'r Cyfarwyddwr Portffolio, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151 a Swyddog Monitro'r Awdurdod Lletya i gytuno ar y telerau drafft i'w cymeradwyo gan y Bwrdd.**

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Ceisio cymeradwyaeth y Bwrdd i Achos Busnes Amlinellol (OBC) y prosiect Ynni Lleol Blaengar.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol am eu barn sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.